

**Cofnodion cyfarfod misol rhithwir Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd  
Hydref 21ain 2020 am 7.30 o'r gloch.**

**Minutes of Llanddona Community Council virtual monthly meeting held on 21st  
October 2020 7.30pm**

**Presennol/Present** - Cadeirydd/*Chairperson* Barbara Williams, Hanna Elin Baguley, Mark Griffiths, Myrddin Roberts, Geraint Parry (Clerc/*Clerk*) a (Cynghorydd Sir/*County Councillor*) Alun Roberts

1. **Ymddiheuriadau/Apologies** - Cyng. Maldwyn Williams, Cyng. Rhian Hughes a Cyng. Martin Hennessey
2. **Cofnodion / Minutes** - Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16dddeg o Fedi fel rhai cywir gan Cyng. Hanna Elin Baguley, eiliwyd gan Cyng. M Roberts / *Minutes of the previous meeting held on 16th September were accepted as accurate by Clr. Hanna Elin Baguley, seconded by Clr. M Roberts.*
3. **Datgan Diddordeb/Declaration of interest**  
Dim datganiad diddordeb i'w ddatgan / *No declaration of interest to declare*
4. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**
  - 4.1 Adroddodd y Clerc fod y Cae Chwarae wedi'i dorri. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd y dylid trefnu trafodaeth bellach ynglŷn â'i defnydd. / *The Clerk reported that the Playing Field has been cut. Following deliberation it was decided that a further discussion regarding its use is to be arranged.*
  - 4.2 Mae Cyng. M Roberts wedi trafod cynnal a chadw'r llwybrau cyhoeddus gyda'r contractwr. Cytunwyd yn unfrydol ar waith cynnal a chadw ychwanegol ger y Bwlch a Thir Comin Rhos / *Clr. M Roberts has discussed the maintenance of the public footpaths with the contractor. Additional maintenance work by Bwlch and Rhos Common land was unanimously agreed.*
  - 4.3 Atgyweirio i'r ffordd ganol i Langoed - Cyng. A Roberts i gael dyddiad cychwyn gan y Cyngor Sir. Nodwyd bod y cwlfer yn y ffordd ger Tir Comin Rhos wedi dymchwel a bod angen ei drwsio cyn ei ail-osod. / *Repair to the middle road to Llangoed - Clr. A Roberts to obtain a start date from the County Council. It was noted that the culvert in the road by the Rhos Common Land has collapsed and requires to be repaired prior to re-surfacing.*
  - 4.4 Traeth - adroddodd y Clerc ar y ddeialog gyda'n Cyfreithiwr. Yn dilyn trafodaeth bellach, y Clerc i drafod ymhellach gyda'n Cyfreithiwr. Dywedodd aelod fod tîrfeddiannwr lleol wedi gosod tail ar hyd ochr y ffordd. / *Beach - the Clerk reported on the dialogue with our Solicitor. Following further discussion, the Clerk to further discuss matters with our Solicitor. A member reported that a local landowner has placed manure along the side of the road.*
  - 4.5 Dosbarthodd y Clerc yr ymateb gan Heddlu Gogledd Cymru ynghylch materion lleol. / *The Clerk circulated the response from North Wales Police regarding local matters.*
5. **Adrodd gan y Cynghorydd Sir / Report by County Councillor**
  - 5.1 Gordyfiant dros y ffordd ger Minffordd a Tan y Bryn - Mae'r Cyngor Sir yn anfon llythyrau cwyn at y deiliaid tai dan sylw / *Overgrowth over the road by Minffordd a Tan y Bryn - The County Council is sending letters of complaint to the householders concerned*
  - 5.2 Esbonio bod y system addysg o dan bwysau aruthrol oherwydd Covid sydd wedi'i adrodd mewn llawer o Ysgolion. Mae gwasanaethau eraill y Cyngor hefyd o dan bwysau ac maent yn cymryd mwy o amser i ymateb i geisiadau. / *Explained that the Education system is under enormous pressure due to Covid which has been reported*

*in many Schools. Other Council services are also under pressure and take longer to respond to requests.*

- 5.3 Adroddwyd am lawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Ward Seiriol, ond ni sylwyd ar unrhyw ddigwyddiadau'n lleol / *It has been reported of many anti-social behaviour in the Seiriol Ward, but no incidents noticed locally.*
- 5.4 Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch effeithiau Brexit, yn enwedig gyda sefyllfa "Dim Bargen" ac effaith bosibl i fusnesau yn y Porthladd yng Nghaerdybi. Hefyd wedi codi cwestiynau gyda Rhun ap Iorwerth ynghylch y nifer o gartrefi haf a phrisiau cynyddol tai yn lleol / *Discussions are taking place regarding the effects of Brexit especially with a "No Deal" situation" and possible impact to business at the Port at Holyhead.*  
*Have also raised questions with Rhun ap Iorwerth regarding the number of summer homes and the increasing prices of housing locally.*
- 5.5 Adroddodd Cynghorydd fod cynnydd y gwaith ym Maes Gwyn wedi arafu sy'n gwneud bywyd bob dydd yn anodd iawn i breswylwyr. Cyng. A Roberts i ymchwilio i'r mater gyda'r Cyngor Sir / *A Councillor reported that progress of work at Maes Gwyn has slowed down which is making daily life very difficult to residents. Clr. A Roberts to look into the matter with the County Council.*
- 5.6 Gofynnodd Cynghorydd a yw'r Cyngor Sir wedi trafod y Mesur Amaethyddol, gan ddweud ei bod yn hanfodol ein bod yn glynu wrth y safon fwyd presennol. Atebodd Cyng. Roberts ei fod wedi cael ei drafod gan y Cynghorwyr ac y caiff ei drafod ymhellach yr wythnos hon gydag arweinydd y Cyngor Sir / *A Councillor asked if the County Council has discussed the Agricultural Bill, stating that Its imperative that we adhere to the current food standard. Clr. Roberts replied that it has been discussed by the Councillors and will be discussed further this week with the leader of the County Council.*

## **6. Adrodd Maes Chwarae Plant / Children's Play Area Report**

- 6.1 Adroddodd y Clerc ar gyflwr yr offerion yn y maes Chwarae yn dilyn arolygiad ROSPA. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cael pris am y mân waith. Clerc i ddsbarthu'r adroddiad i Gynghorwyr / *The Clerk reported on the condition of the Play ground equipment following the ROSPA inspection. Following deliberation it was decided to obtain a price for the minor works. Clerk to circulate the report to Councillors.*

## **7. Awdit Allanol / External Audit 2019/20**

- 7.1 Esboniodd y Clerc fod yr Archwilywyr Allanol wedi codi 4 pwynt yr ymatebwyd iddynt cyn i'r Adroddiad Blynyddol gael ei ryddhau. Dywedodd y Clerc hefyd ein bod yn aros am ragor o wybodaeth am fformat archwiliadau o Archwiliad Cymru yn y dyfodol / *The Clerk explained that the External Auditors had raised 4 points which have been replied to prior to the release of the Annual report. Clerk also stated that we await further information regarding the format of future audits from Audit Wales*

## **8. Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications**

- 8.1 FPL/2020/203 – Tylluan Wen, Ffordd Deg Wen, cais llawn ar gyfer newid defnydd adeilad allanol i 2 Llety gwyliau - dim gwrthwynebiad / *Full application for conversion of an outbuilding into 2 Holiday units - no objection.*
- 8.2 LBC/2020/19 – Penhwnllys Plas, Llaniestyn – caniatad adeilad rhestredig ar gyfer dymchwel y porth presennol a chodi porth mwy – dim gwrthwynebiad / *Listed building consent for the demolition of the existing porch and the erection of a larger porch – no objection*
- 8.3 FPL/2020/6 - Craig y Brenin, Llanddona - gwybodaeth bellach - cais llawn ar gyfer codi dwy annedd ar dir - dim gwrthwynebiad / *additional information - full application for the erection of two dwellings on land - no objections.*

## **8.4 Penderfyniadau Cynllunio / Planning Decisions**

- 8.5 HHP/2020/196 – 11 Wern Farm Estate, Llanddona – cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu – wedi ei ganiatau / *Full application for the alterations and extension – has been granted.*
- 8.6 VAR/2020/17 - Mynydd Crafoed, Llanddona - Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (02) (cyflwyniad o fanylion llawn) o ganiatâd cynllunio rhif 22C47C/1/VAR (codi 4 annedd) i alluogi 3 blynedd bellach i gyflwyno'r manylion llawn - cais wedi ei dynnu'n ôl / *Application under Section 73 for the variation of condition (02) (submission of reserved matters) of planning permission reference 22C47C/1/VAR (erection of 4 dwellings) so as to allow a further 3 years to submit full details - application has been withdrawn.*
- 8.7 HHP/2020/161 - Fferm Wen, Llanddona - cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu - wedi ei ganiatáu / *Full application for the alterations and extensions - has been granted.*

## **9. Cyfrifon / Accounts**

- 9.1 Bancio ar-lein - Esboniodd y Clerc fod y ddogfen Bancio Ar-lein wedi'i dosbarthu i lofnodwyr y cyfrif i gytuno arno / *On-Line Banking - The Clerk explained that the On-line Banking document have been circulated to the account signatories for agreement.*
- 9.2 Eglurodd y Clerc yr incwm a'r gwariant hyd at ddiwedd chwarter 2 / *The Clerk explained the income and expenditure up to the end of quarter 2*
- 9.2 **Anfonebau i'w talu / Invoices for payment:-**  
Dim anfonebau i'w talu / *No invoices for payment*

## **10. Gohebiaeth / Correspondence**

- Un llais Cymru – newyddion / *One Voice Wales – newsletter*
- Un llais Cymru – hyfforddiant / *One Voice Wales – training*
- Un llais Cymru – cymorth cynllunio / *One Voice wales – Planning Aid*
- Ynys Ynni – Wylfa / *Energy Island - Wylfa*
- Cyngor Sir – coronafirws / *Anglesey Council – coronavirus*
- Cyngor Sir – Cofio 2020 / *Anglesey Council – Remembrance 2020*
- Awel y Môr Fferm Wynt / *Wind Farm*

## **11. UFA/AOB**

- 11.1 Esboniodd y Clerc fod cais wedi dod i law am hawddfrait gan Glas Construction i osod pibell garthffosiaeth o gae Tyn Llan dros dir comin tuag at Fwthyn Bryn Teg. Mae cais cynllunio ar gyfer 2 annedd wedi'i roi ar gyfer y safle hwn. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd cael costau a thaliadau posibl. Penderfynwyd hefyd greu Polisi ynghylch Hawddfrait / *Clerk explained that an application has been received for an easement from Glas Construction to lay a sewerage pipe from Tyn Llan field over common land towards Bryn Teg Cottage. A planning application for 2 dwellings has been granted for this site.*  
*Following deliberation it was resolved to obtain costs and possible charges. It was also decided to create a Policy regarding Easements*
- 11.2 Dywedodd y Clerc fod y 4 Dosbarthwyr Bagiau Cŵn wedi'u codi o amgylch y Pentref / *Clerk reported that the 4 Dog Poo Bag dispensers have been erected around the Village.*
- 11.3 Dywedodd Cynghorydd fod cwmni arwynebau ffordd a oedd gynt wedi niweidio'r tir comin wedi parcio eu cerbydau yna eto. Cytunodd Cyng. A Roberts i drafod y mater hwn gyda'r adran Priffyrdd / *A Councillor reported that a road surfacing company that previously damaged the common land, are parking their vehicles there again. Cllr A Roberts agreed to discuss this issue with the Highways department*
- 11.4 Derbyniwyd Hysbysiad gan y Cyngor Sir i wahardd traffig dros dro i'r naill gyfeiriad neu'r llall ar hyd ffordd y Traeth o'r 2/11 er mwyn caniatáu mynediad i rwydweithiau gorbenion / *A Notice was received from the County Council to temporarily prohibit*

*traffic in either direction along the Beach road from the 2/11 so as to allow access to overhead networks.*

- 11.5 *Mynychodd Cynghorydd gyfarfod Grŵp Plantlife ar dir Comin Rhos ar 17/10/20 / Councillor attended the Plantlife Group meeting on the Rhos Common land on the 17/10/20.*
- 11.6 *Mae Cynghorydd wedi cytuno i drefnu cystadleuaeth Pwmpen / A Councillor has agreed to arrange a Pumpkin competition.*
- 11.7 *Soniodd Cynghorydd am y Tŷ sy'n cael ei adeiladu ger y Traeth / A Councillor mentioned the the House being built near the Beach.*

**12. Dyddiad cyfarfod nesaf /Date of next meeting:**

*Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i ben 9:10. Cyfarfod nesaf ar 18/11/20 am 7:30 /There was no further business to discuss. Meeting ended 9:10pm. Next meeting to be held on 18/11/20 at 7:30pm.*

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad